**Adroddiad i'r:** Cyngor Llawn

**Dyddiad y Cyfarfod:** 10fed Mai 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Julian Thompson-Hill, Aelod Arweinol dros Berfformiad

**Awdur yr Adroddiad:** Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio

**Teitl:** Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

---

## 1. Am beth y mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am yr asesiad blynyddol o ragolygon y Cyngor ar gyfer gwella, a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am Adroddiad Gwella'r Cyngor. Gweler Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn nodi cynnwys yr adroddiad sydd ynghlwm a'i gynigion ar gyfer gwella.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

O dan y Mesur Llywodraeth Leol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o gynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei amcanion a'r rhagolygon ar gyfer parhau i wella yn y flwyddyn i ddod.

Ar gyfer y flwyddyn 2015-16, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad cyffredinol a ganlyn: *Mae'r Cyngor, gyda threfniadau rheoli a chraffu ariannol cadarn, yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth*.

Yn benodol:

- mae Sir Ddinbych wedi mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd y llynedd o ran darparu tai fforddiadwy, datblygu Strategaeth Tai a chynllun gweithredu cefnogol, cynhwysfawr.

- Mae Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn perfformio'n dda ar y cyfan;

- Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a chyflenwi arbedion yn gadarn ac effeithiol;

- Mae'r berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion yn parhau i fod yn adeiladol;

- Mae'r Cyngor yn archwilio dulliau newydd o gyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys gyda phartneriaid masnachol.

Os bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru bryderon mawr ynglŷn â'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor neu'r cyfeiriad y mae'n ei gymryd, bydd yn gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer newid. Unwaith yn rhagor, nid yw adroddiad Sir Ddinbych yn cynnwys unrhyw argymhellion ffurfiol eleni, gan adlewyrchu barn gadarnhaol Swyddfa Archwilio Cymru am gynnydd y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai meysydd sy'n destun pryder, lle'r ystyrir bod angen mwy o waith. Rhestrir y rhain isod.

- *Nid yw AGGCC yn ystyried fod y trefniadau sy'n ymwneud â diogelu oedolion sy'n agored i niwed yn foddhaol. Mae'r rheolydd hefyd yn nodi pryderon o ran y ffordd y caiff ansawdd Gofal yn y Cartref ei fonitro*. Rydym wedi cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, gan gynnwys:

  - Hyfforddiant diogelu i reolwyr arweiniol;
  - Mwy o gymorth gweinyddol i'r broses Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed;
  - Mae proses Un Pwynt Mynediad ddiwygiedig wedi gwella'r dull o sgrinio atgyfeiriadau;
  - Crewyd swydd newydd Rheolwr y Tîm Diogelu;
  - Mabwysiadwyd y trothwyon cenedlaethol ar gyfer derbyn atgyfeiriadau.
  - Ar hyn o bryd mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cymunedol yn adolygu ei drefniadau ar gyfer darparu Gofal yn y Cartref ac efallai y bydd yn ystyried cyflogi swyddogion monitro ychwanegol.

- *Mae'r lefel presenoldeb mewn cyfarfodydd Archwilio wedi lleihau, ynghyd â phresenoldeb Aelodau Archwilio yng nghyfarfodydd Her y Gwasanaethau. Gall hyn beryglu gallu'r Cyngor i reoli ei berfformiad yn effeithiol*. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i geisio gwella'r sefyllfa:
  - Codwyd y mater gydag Arweinwyr Grwpiau a gyda'r Cyngor Llawn;
  - Adolygwyd amserlen y Pwyllgor i sicrhau nad oes gwrthdaro;
  - Rydym wedi newid lleoliad rhai cyfarfodydd Archwilio a'u cynnal mewn gwahanol ardaloedd pan drafodir materion lleol.

  Ymddengys fod y camau hyn yn dechrau dwyn ffrwyth ac mae presenoldeb wedi gwella rhywfaint dros y 3 mis diwethaf.

- *Mae'r Adroddiad yn ystyried y dylai'r Cyngor ffurfioli ei ddull o ddefnyddio modelau cyflenwi amgen, er mwyn nodi gwerth am arian yn fwy eglur. Cynigir hefyd y dylai'r Cyngor atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm i wella cysondeb*.

  - Mewn ymateb, mae'r Cyngor eisoes wedi datblygu nifer o fodelau cyflenwi amgen llwyddiannus. Gan y bydd twf posibl yn nifer ac ystod y cynigion yn y dyfodol, mae dull corfforaethol o asesu a gweithredu

modelau amgen yn cael ei baratoi. Bydd yn cynnwys nifer o bwyntiau cymeradwyo fesul cam i sicrhau y caiff cynigion eu rhoi ar brawf yn gywir a bod costau a'r effaith ar wasanaethau wedi'u deall yn llawn. Bydd drafft ar gael erbyn diwedd mis Mai.

- Er bod taliadau a chostau gwasanaethau wedi'u hystyried fel rhan o rowndiau cyllidebol blaenorol, bydd y broses ddiwygiedig ar gyfer 2017/18 yn cynnwys dadansoddiad manylach o ffrydiau incwm gwasanaethau – gan gynnwys y costau unigol, y cyfanswm a godwyd, cyfnod adolygu, ac ati. Bydd y data gwasanaethau hyn yn sail i gofrestr gorfforaethol o'r holl daliadau a chostau.

Ymateb y Cyngor i gyhoeddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau lleol a chenedlaethol penodol yw sicrhau bod Penaethiaid Gwasanaethau priodol yn datblygu cynllun gweithredu y gellir ei ystyried gan Aelodau mewn Pwyllgor Archwilio. Mae dau o'r tri adroddiad a restrir yn Atodiad 3 eisoes wedi bod gerbron y Pwyllgor Archwilio a bydd y trydydd – 'Datblygu Mwy gyda Llai: Gwasanaethau Hamdden' yn mynd gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 12 Mai.

**5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad, ond mae adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor yn rhan bwysig o'r broses o ddeall ein cynnydd wrth gyflenwi ein Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint y bydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes goblygiadau ariannol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys y templad AEG mewn atodiad i'r adroddiad.**

Ddim yn gymwys*.*

**8. Pa ymgynghori a gafwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae swyddogion wedi adolygu'r adroddiad o ran ei gywirdeb cyn ei gyhoeddi. Caiff yr Adroddiad Gwella Blynyddol ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ebrill 2016.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad cadarnhaol hwn yn rhoi sicrwydd fod trefniadau rheoli ariannol yn gadarn, ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol ac mae prosesau yn eu lle i sicrhau y caiff pryderon a gaiff eu codi eu hystyried mewn ffordd briodol gan y cyngor.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai risgiau i’r Cyngor pe na byddid yn gweithredu ar gynigion Swyddfa Archwilio Cymru i wella.

**11. Hawl i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad.